**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Bil Cynllunio a Seilwaith**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru ("y Senedd") os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith (y “Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin ar 11 Mawrth 2025. Mae’r Bil ar gael yn: y Bil Cynllunio a Seilwaith

## Amcanion y Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw cyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer darparu cartrefi a seilwaith critigol newydd, cefnogi i gyrraedd cerrig milltir Cynllun Newid y llywodraeth o adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi diogel a gweddus yn Lloegr a chyflymu 150 o benderfyniadau cynllunio ar brosiectau seilwaith economaidd mawr erbyn diwedd Senedd hon y DU. Bydd hefyd yn helpu i wireddu targed Pŵer Glân 2030 y llywodraeth trwy sicrhau bod prosiectau ynni glân yn cael eu hadeiladu cyn gynted ag y medrir. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Bil yn:

   a. Darparu ar gyfer proses gyflymach a mwy pendant ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith critigol a chryfhau'r fframwaith polisi o amgylch Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

   b. Rhoi system fwy effeithlon a rhagweladwy ar waith ar gyfer prosiectau seilwaith ynni, gan gynnwys:

      i. Diwygiadau i ddiweddaru'r broses ar gyfer cysylltu â'r grid trydan;
      ii. Sefydlu cynllun trothwyon uchaf ac isaf newydd i ddefnyddio adnoddau storio trydan cyfnod hir;
      iii. Diwygio'r drefn ar gyfer cydsynio seilwaith trydan yn yr Alban, er mwyn lleihau agweddau aneffeithiol ar y system a mabwysiadu arferion gorau;
      iv. Sefydlu cynllun gostwng biliau i'r rheini sy'n byw agosaf at seilwaith newydd trawsyrru trydan; a
      v. Diweddaru proses ar gyfer trawsyrru trydan o'r môr, trwy estyn cyfnod cymal comisiynu'r cynhyrchydd.

   c. Symleiddio'r drefn ar gyfer cynnal prosiectau seilwaith trafnidiaeth a'i gwneud yn fwy effeithlon, gan gynnwys:

      i. Newid y broses o gymeradwyo gwaith stryd er mwyn gallu gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn gyflymach;
      ii. Diwygiadau amrywiol i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 a Deddf Priffyrdd 1980 i symleiddio prosesau a chyflymu prosiectau; ac

iii. Adennill costau Gorchmynion Adolygu Harbyrau yn well.

d. Cyflwyno dull mwy strategol o adfer natur mewn perthynas â datblygu, gan alluogi datblygwyr i ariannu'r gwaith adfer yn fwy effeithlon trwy Gronfa Adfer Natur newydd, tra'n sicrhau canlyniadau gwell i'r amgylchedd.

e. Gwneud penderfyniadau'n well a gwella sicrwydd gan wella capasiti awdurdodau cynllunio lleol trwy eu galluogi i adennill eu costau trwy ffioedd cynllunio.

f. Rhyddhau tir ar gyfer buddsoddiadau mawr, a sicrhau gwerth i'r cyhoedd, trwy ddiwygio'r broses gorchmynion prynu gorfodol a rheolau iawndal.

g. Cryfhau pwerau corfforaethau datblygu i ddarparu seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth, ac egluro a diweddaru cylchoedd gwaith ac amcanion corfforaethau datblygu.

h. Darparu ar gyfer cyflwyno system gynllunio strategol yn Lloegr.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddwr y Bil yw’r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer seilwaith; ar gyfer cynllunio gwlad a thref; ar gyfer cynllun i'w weinyddu gan Natural England; ar gyfer ardoll adfer natur i'w dalu gan ddatblygwyr; ar gyfer corfforaethau datblygu; ar gyfer prynu tir yn orfodol; ar gyfer adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol; ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

6. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod datblygiad y Bil. Bydd y cyswllt hwn yn parhau ar lefel swyddogion a Gweinidogion yn ôl y gofyn.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

7. Dyma'r cymalau sy'n arbennig o berthnasol i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

**Rhan 1 Seilwaith**

**Pennod 1 - Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol**

Cymal 4(3) i (5) - Ceisiadau am gydsyniad datblygu: ymgynghoriad

8. Mae cymal 4(3) i (5) yn diwygio proses prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ("NSIPs") o ran cyflogi ymgyngoreion penodedig. Mae cymal 4(3) yn cyflwyno adran 50A newydd i Ddeddf Cynllunio 2008 ("Deddf

2008") i ddarparu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus perthnasol roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i helpu awdurdodau o'r fath i ymateb yn effeithiol i ymgynghoriadau o dan adran 42 o Ddeddf 2008. Mae adran 42 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ymgynghori â chyrff a phersonau penodol fel rhan o broses ymgeisio'r NSIP. Ymhlith y cyrff sy'n gorfod rhoi sylw i'r canllawiau ar ymateb i ymgynghoriadau y mae awdurdodau lleol yng Nghymru (yn rhinwedd adran 42(1)(b) o Ddeddf 2008), Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru (yn rhinwedd adran 42(1)(a) o Ddeddf 2008).

9. Mae cymal 4(4) yn diwygio adran 60 sy'n ymwneud ag adroddiadau ar effeithiau lleol. Mae'n darparu bod gofyn i awdurdod sy'n cynhyrchu adroddiad ar effeithiau lleol roi sylw i ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddai hynny'n cynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru os yw'r datblygiad yn digwydd yng Nghymru.

10. Mae cymal 4(5) yn cyflwyno adran 96A newydd i Ddeddf 2008 i ddarparu bod gofyn i awdurdod cyhoeddus perthnasol sy'n gwneud sylwadau am gais (llafar neu ysgrifenedig) roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hwn hefyd yn cynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru (yn rhinwedd adran 56(2)(b) o Ddeddf 2008) a Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru (yn rhinwedd adran 56(2)(a) o Ddeddf 2008).

11. I grynhoi, bydd y newidiadau yn golygu y bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus penodedig gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru, roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ymateb i ymgynghoriadau neu wrth wneud sylwadau am gais am orchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu o dan Ddeddf 2008. Ar sail hyn rwy'n credu bod cymal 4(3) i (5) yn sbarduno'r broses hon gan y byddai'n effeithio ar swyddogaeth awdurdodau datganoledig Cymru.

**Pennod 2 – Seilwaith Trydan – Cynhyrchu trydan ar dir coedwigaeth**

<u>Cymal 24 - Defnyddio ystâd goedwigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy</u>

12. Mae cymal 24 yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 (drwy fewnosod adran 3A newydd ar ôl adran 3) gan roi'r pŵer i'r awdurdod coedwigaeth priodol (sef yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") yn rhinwedd Gorchymyn Corff Cyfoeth Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013) i:
    - Ddefnyddio tir coedwigaeth, neu wneud trefniadau mewn cysylltiad â defnyddio tir coedwigaeth, i gynhyrchu, storio neu drawsyrru/cyflenwi trydan adnewyddadwy;
    - Gwerthu trydan adnewyddadwy neu wneud trefniadau sy'n ymwneud â thrydan adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio neu ei gyflenwi ar dir coedwigaeth neu ei drawsyrru drosto;
    - defnyddio tir coedwigaeth neu wneud trefniadau ynghylch ei ddefnyddio, i gynnal gweithgaredd a fwriedir i fodloni (neu ei gwneud

yn bosib bodloni) amod perthnasol mewn datblygiad neu weithgaredd sy'n gysylltiedig ag amod o'r fath.

13. Diffinnir amod datblygu perthnasol fel amod sy'n ymwneud â datblygiad trydan adnewyddadwy wedi'i leoli ar dir coedwigaeth ac y bwriedir iddo fod o fudd i'r amgylchedd naturiol. Mae amod datblygu yn un y mae angen caniatâd cynllunio arno, neu ofyniad a gynhwysir mewn Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

14. Mewn perthynas â Chymru, dibenion y pwerau a roddir yn y cymal hwn yw cael arian ar gyfer talu costau gweithgareddau CNC a hwyluso neu hyrwyddo defnyddio trydan adnewyddadwy.

15. Mae'r cymal yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu na chaiff CNC arfer ei bwerau o dan y cymal hwn heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y broses ceisio a rhoi cydsyniad a darparu bod cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau. Byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gwneud dan y weithdrefn gadarnhaol.

16. Rwy'n credu bod y cymal hwn yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Pwrpas y ddarpariaeth yw ei gwneud yn bosib defnyddio tir coedwigaeth at ddibenion trydan adnewyddadwy. Bydd hyn yn cyfrannu at roi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil ac felly at ddilyn y llwybr datgarboneiddio yng Nghymru. Felly, mae'r ddarpariaeth yn ystyried mater datganoledig – yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd, yn enwedig effeithiolrwydd polisïau datgarboneiddio yng Nghymru.

**Pennod 3 – Seilwaith Trafnidiaeth - Diwygiadau i Ddeddf Priffyrdd 1980**

17. Rwy'n credu bod cymalau 25, 28 a 29 yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Mae'r cymalau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ynghylch priffyrdd ac felly mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

<u>Cymal 25 - Ffioedd am wasanaethau penodol</u>

18. Mae cymal 25 yn diwygio Deddf Priffyrdd 1980 drwy fewnosod adran newydd ar ôl 281A. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i enwi'r cyrff cyhoeddus sy'n cael codi tâl am eu gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â gorchmynion a chynlluniau a wneir mewn perthynas â phrosiectau ffyrdd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980. Daw'r rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

<u>Cymal 28 - Gweithdrefn ar gyfer gorchmynion a chynlluniau penodol</u>

19. Mae cymal 28 yn diwygio adran 325 o Ddeddf Priffyrdd 1980 drwy ddileu'r gofyniad i wneud gorchmynion o dan adran 10 a chynlluniau o dan adran 16 neu 106(3) drwy offeryn statudol. Mae hefyd yn caniatáu i orchmynion adran 10 a chynlluniau adran 16 a 106(3) gael eu diwygio a'u dirymu gan orchymyn neu gynllun dilynol. Mae'r diwygiad hwn yn ei gwneud yn bosibl ymdrin â gwahanol orchmynion Deddf Priffyrdd yn Lloegr mewn ffordd

gyson. Mae’r cymal trwy amryfusedd yn cyfeirio at Gymru ac rydym wrthi’n trafod â swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfeirio at Loegr yn unig.

Cymal 29 - Pwerau prynu gorfodol gan gynnwys cymryd meddiant dros dro

20. Mae cymal 29 yn diwygio adran 250(8) o Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol arfaethedig yn cynnwys yr hawl i gymryd meddiant neu feddiannaeth dros dro ar dir wrth arfer pwerau prynu gorfodol mewn perthynas â chynlluniau ffyrdd. Mae hyn yn rhoi pwerau i ddefnyddio tir am gyfnod dros dro (yn orfodol neu drwy gytundeb) er mwyn rhoi llwybr cymesur i hyrwyddwyr cynllun allu crynhoi tir lle byddai caffael tir neu hawliau'n barhaol neu ansicrwydd ynghylch dychwelyd tir a gafodd ei gaffael yn creu oedi.

**Pennod 3 – Seilwaith Trafnidiaeth - Diwygiadau i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992**

21. Rwy'n credu bod cymalau 30 i 38 a 41 yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Mae'r cymalau hyn yn cyd-fynd â naratif a fframwaith cyfreithiol Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 i sicrhau bod y broses gydsynio ar gyfer Gorchmynion Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 mor effeithiol â phosibl.

Cymal 30 - Darparu canllaw yn lle cymalau enghreifftiol

22. Mae cymal 30 o'r Bil yn diwygio adran 8 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 ("TWA 1992") sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymyn sy'n rhagnodi Cymalau Enghreifftiol y gellir eu hymgorffori yng Ngorchmynion TWA 1992. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i ymgeiswyr ddefnyddio'r Cymalau Enghreifftiol hyn. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynglŷn â pharatoi Gorchmynion TWA. Gall y canllawiau gynnwys Cymalau Enghreifftiol, gan ganiatáu eu diweddaru yn fwy rheolaidd drwy broses fwy effeithlon. Wrth benderfynu ar gais TWA, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw wyro oddi wrth y canllawiau hynny, a'r rhesymau a roddir gan yr ymgeisydd dros wneud.

Cymal 31 - Dileu'r weithdrefn arbennig ar gyfer prosiectau o arwyddocâd cenedlaethol

23. Mae cymal 31 yn dileu adran 9 o TWA 1992 sy'n gymwys i geisiadau ar gyfer cynigion sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, o arwyddocâd cenedlaethol. Nid oes ei hangen mwyach gan fod Deddf Cynllunio 2008 bellach yn caniatáu prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol a bydd Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn ymdrin â phrosiectau o'r fath yng Nghymru. Mae darpariaeth i sicrhau nad effeithir ar unrhyw hysbysiad a wneir o dan adran 9(2) o TWA 1992 cyn i'r pŵer hwn ddod i rym.

Cymal 32 - Dyletswydd i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad

24. Mae cymal 32 yn diwygio adran 11 o TWA 1992, sy'n nodi proses i wrthwynebydd roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru os bydd am i'w wrthwynebiad gael ei ystyried gan ymchwiliad neu

ei drin yn unol ag adran 11(2). Mae'r ddarpariaeth yn diwygio adran 11(3) o TWA 1992 i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliad cyhoeddus dim ond pan fydd gwrthwynebydd yn codi gwrthwynebiad sy'n cael ei ystyried yn sylweddol ac nid yn un dibwys neu wamal. Ceir darpariaeth hefyd i sicrhau na effeithir ar unrhyw gais y mae rheol 5(1) o Reolau Trafnidiaeth a Gwaith (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 yn gymwys iddo ac y cydymffurfiwyd â hi cyn i'r pŵer hwn ddod i rym.

Cymal 33 - Costau ymchwiliadau

25. Mae cymal 33 yn diwygio adran 11 o TWA 1992. Mae'r ddarpariaeth yn egluro adran 250 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i'w gwneud yn glir mai'r ymgeisydd sy'n talu unrhyw gostau sy'n deillio o ymchwiliad cyhoeddus sy'n angenrheidiol i gais TWA 1992 allu symud yn ei blaen. Mae hefyd yn nodi pŵer newydd i sicrhau mai'r Arolygydd sy'n penderfynu ar gostau oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo fel arall.

Cymal 34 - Dyddiadau cau ar gyfer penderfyniadau

26. Mae cymal 34 yn diwygio adran 13 o TWA 1992 i ychwanegu pŵer er mwyn gallu gwneud rheoliadau i bennu rheolau sy'n neilltuo cyfnod o amser ar gyfer cymryd camau gweithredu a gwneud penderfyniadau ynghylch achosion sy'n ymwneud â cheisiadau o dan adran 6 (ceisiadau am orchmynion o dan adrannau 1 a 3) o TWA 1992. Er mwyn i reol fod yn gymwys i Gymru, rhaid ei gwneud gyda chytundeb Gweinidogion Cymru. Daw'r rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Cymal 35 - Cyhoeddi penderfyniadau ac amser ar gyfer herio

27. Mae cymal 35 yn diwygio adran 14 o TWA 1992 i newid sut mae penderfyniad yn cael ei gyhoeddi. Mae'r newid yn golygu yn lle ei gyhoeddi yn y London Gazette ei gyhoeddi ar wefan Gweinidogion Cymru. Mae adran 22 o TWA 1992 wedi'i diwygio hefyd i ddarparu bod y cyfnod herio (o 6 wythnos) yn dechrau diwrnod cyhoeddi'r penderfyniad yn unol â'r gofynion newydd.

Cymal 36 - Ffioedd am wasanaethau penodol

28. Mae cymal 36 yn mewnosod adran 23A newydd yn TWA 1992 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliad i enwi cyrff cyhoeddus (dim ond cyrff statudol penodol ac awdurdodau cynllunio lleol) y caniateir iddynt godi tâl am y gwasanaethau a ddarperir i gynlluniau o fewn proses ymgeisio TWA. Daw'r rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Cymal 37 - Datgymhwyso cyfundrefnau treftadaeth

29. Mae cymal 37 yn mewnosod adran 17 newydd yn TWA 1992 sy'n datgymhwyso'r cydsyniad adeiladau rhestredig, y cydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer dymchwel ac awdurdodiad henebion cofrestredig o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 pan roddir cydsyniad TWA 1992.

Cymal 38 – Cydsyniad tybiedig o dan drwydded forol

30. Mae cymal 38 yn mewnosod adran 19A newydd yn TWA 1992. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi gorchymyn a wneir o dan adran 1 neu 3 o TWA 1992 i gynnwys darpariaeth sy'n tybio bod Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi trwydded forol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

31. Rhaid i'r gweithgareddau a enwir mewn Gorchymyn TWA y tybir bod trwydded forol wedi'i rhoi ar eu cyfer fod yn weithgareddau a wneir yn gyfan gwbl yn un neu ragor o'r ardaloedd a enwir yn is-adran (3), neu'n weithgaredd y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer. Mae'r ardaloedd yn is-adran (3)(c) i (e) yn cwmpasu'r rhanbarth môr mawr, gan gynnwys Parth Ynni Adnewyddadwy y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol arno o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae trafodaethau yn parhau gyda swyddogion Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y bwriedir i TWA 1992 fod yn gymwys ar y môr mawr a beth fydd effaith hynny ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran rhoi trwyddedau morol.

Cymal 41 – Y pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol

32. Mae cymal 41 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau canlyniadol i gymalau 30 i 40 trwy reoleiddio. Mae'r rheoliadau sy'n diwygio Deddf Seneddol y DU neu Ddeddf neu Fesur o'r Senedd yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Bydd y rhan fwyaf o reoliadau yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**Pennod 3 – Seilwaith Trafnidiaeth – Harbyrau: Ffioedd ceisio am orchmynion harbwr**

Cymal 42 - Ffioedd ceisio am orchmynion harbwr

33. Rwy'n credu bod y cymal hwn yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Gwnaeth Deddf Cymru 2017 ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn datganoli cymhwysedd deddfwriaethol a nifer o swyddogaethau gweithredol, i'r graddau nad oeddynt eisoes wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru, dros borthladdoedd a harbyrau yng Nghymru, y naill i'r Senedd a'r llall i Weinidogion Cymru (ac eithrio 'porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl', h.y. Aberdaugleddau).

34. Yn eu plith yr oedd y drefn reoleiddio i wneud gorchmynion adolygu a grymuso harbyrau a nodir yn adrannau 14, 15 a 16 o Ddeddf 1964 ac felly'r ddarpariaeth o bennu ffioedd.

35. Mae cymal 42 yn diwygio paragraffau 7 a 9, yn ychwanegu paragraff newydd yn Atodlen 3 ac yn diwygio adran 54 o Ddeddf Harbyrau 1964. Byddai'r newidiadau'n dileu'r darpariaethau presennol ym mharagraff 7(1)(c) yn Atodlen 3 o'r Ddeddf Harbyrau. Ni fyddai Gweinidogion Cymru'n nodi ffioedd mwyach mewn canllawiau cyhoeddedig fel y gwneir ar hyn o bryd. Yn hytrach, byddai Gweinidogion Cymru'n cael pŵer i wneud rheoliadau ynghylch ffioedd ymgeisio am Orchymyn Adolygu Harbyrau y bydd yr ymgeisydd yn eu talu.

36. Mae'r darpariaethau yn nodi y caiff y rheoliadau:
    - Bennu swm y ffi trwy ddull a nodir mewn rheoliadau.
    - Caniatáu i Weinidogion Cymru beidio ag ymgymryd â thasgau penodol mewn perthynas â chais os na thelir ffi yn brydlon.
    - Darparu ar gyfer talu blaendal.
    - Gwneud mân-ddarpariaethau neu ddarpariaethau atodol.
    - Gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

37. Daw'r rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

38. Daw'r darpariaethau sy'n galluogi'r pwerau i wneud rheoliadau i rym ddau fis ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio. Fodd bynnag, byddai'r pwerau presennol i godi ffioedd o dan baragraff 7(1)(c) o Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964 yn parhau nes y pennir dyddiad mewn rheoliadau.

**Rhan 5 - Prynu Gorfodol**

39. Mae cymalau 83 i 87 ac 89 i 92 sy'n ymwneud â phrynu gorfodol yn effeithio ar Weinidogion Cymru yn rhinwedd eu swyddogaeth fel awdurdod cadarnhau ac fel awdurdod caffael ac felly ystyrir eu bod yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

40. Ychydig o gymhwysedd deddfwriaethol sydd gan y Senedd mewn perthynas â phrynu gorfodol mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys cynllunio defnydd tir. Er na cheir cyfeiriad penodol yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GoWA") bod prynu gorfodol yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl, ceir cyfyngiadau arno ym mharagraff 3 o Atodlen 7B o GoWA. Mae paragraff 3 yn nodi nad yw Deddf y Senedd yn gallu newid (na rhoi pŵer i newid) y gyfraith breifat. Mae "cyfraith breifat" yn cynnwys prynu eiddo yn orfodol. Felly, nid yw'r Senedd yn gallu newid y gyfraith prynu gorfodol at ddibenion cyffredinol, nac i gyflawni rhai sydd wedi'u cadw yn ôl. Mae hyn yn rhwystro'r Senedd rhag newid y rheolau cyffredinol ar brynu gorfodol a geir mewn deddfwriaeth fel Deddf Caffael Tir 1981 mewn perthynas â phob caffaeliad gorfodol yng Nghymru, fel y cynigir gan y Bil.

<u>Cymal 83 - Gwasanaeth electronig ac ati</u>

41. Mae cymal 83 yn diwygio adran 6 o Ddeddf Caffael Tir 1981, adran 38 o Ddeddf Digolledu Tir 1961, ac mae'n ychwanegu adran newydd ar ôl adran 84 o Ddeddf Digolledu Tir 1973. Diben y diwygiadau hyn yw ei gwneud yn haws defnyddio cyfryngau cyfathrebu electronig i gyflwyno hysbysiadau a dogfennau i wahanol bartïon y broses y Gorchymyn Prynu Gorfodol ("GPG") i gyflymu'r broses a lleihau'r baich gweinyddol. Yn ogystal â'r gofynion presennol i gyflwyno hysbysiad neu ddogfen, bydd y darpariaethau sy'n cael eu cynnig yn ychwanegu dau ddull newydd o gyfathrebu electronig; naill ai dros e-bost neu drwy eu lanlwytho i wefan y cytunwyd arni neu wefan briodol. Byddai hyn yn eu gwneud yn gyson â'r pwerau ar gyfer cyfathrebu electronig sydd eisoes wedi'u nodi yn Neddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981.

Cymal 84 - Cynnwys gofynnol mewn hysbysiadau papur newydd

42. Mae cymal 84 yn diwygio adrannau 11, 15 a pharagraffau 2 a 6 o Atodlen 1 o Ddeddf Caffael Tir 1981. Maen nhw'n symleiddio'r lefel o fanylion y mae angen eu cynnwys mewn hysbysiad papur newydd ar gyfer hysbysebu, gwneud a chadarnhau GPG, gan ddileu'r gofyn am ddisgrifiad llawn o'r tir ac yn lle hynny, nodi cyfeiriad post y tir neu ddisgrifiad o leoliad y tir.

Cymal 85 - Cadarnhau trwy orchymyn gan awdurdod caffael gyda newidiadau

43. Mae Cymal 85 yn diwygio adran 14A o Ddeddf Caffael Tir 1981 Mae'r rhain yn newid y sefyllfa bresennol lle caiff yr awdurdod caffael (yn hytrach na'r awdurdod cadarnhau) gadarnhau'r GPG ar yr amod bod yr awdurdod cadarnhau yn fodlon nad oes gwrthwynebiad i'r gorchymyn ac y gellir gwneud y gorchymyn heb newidiadau. Y cynnig yw cyflwyno pŵer yn ôl disgresiwn er mwyn i'r awdurdod cadarnhau allu rhoi'r cyfrifoldeb i'r awdurdod caffael gadarnhau ei GPG ei hun lle mae'r awdurdod cadarnhau yn cael gofyn am gategorïau penodol o newidiadau nad ydynt yn rhai dadleuol. Mae'r darpariaethau yn nodi pa newidiadau a ganiateir, sef:

- ychwanegu buddiant newydd yn y GPG cyn belled â bod y person yn cytuno bod ei fuddiant yn cael ei gynnwys;
- tynnu buddiant o GPG;
- dileu rhan o fuddiant yn y GPG os bydd y person wedi cytuno i'r newid hwn; a
- newidiadau i'r gorchymyn nad ydynt yn effeithio ar y buddiant yn y tir.

44. Pan fydd yr awdurdod caffael wedi cadarnhau gorchymyn gyda newidiadau, yna bydd angen iddo roi copi o'r GPG gyda'r newidiadau i'r awdurdod cadarnhau ac ardystio mai dim ond newidiadau nad ydynt yn rhai dadleuol sydd wedi'u gwneud.

Cymal 86 - Datganiadau breinio cyffredinol: gweithdrefn gyflym

45. Mae cymal 86 yn diwygio adrannau 2 a 6 ac yn mewnosod dwy adran newydd ar ôl adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981. Ar hyn o bryd, y sefyllfa ohoni lle mae GPG wedi'i gadarnhau yw y caiff yr awdurdod caffael ddechrau'r broses o gymryd meddiant ar y 'r tir/eiddo trwy roi hysbysiad i'r meddianwyr ac eraill sydd â buddiant yn y tir/eiddo. Cymerir meddiant naill ai trwy i'r awdurdod caffael gyflwyno hysbysiad i drin neu weithredu Datganiad Breinio Cyffredinol. Cyn y caiff awdurdod caffael gymryd meddiant ar dir / eiddo sydd mewn GPG wedi'i gadarnhau, rhaid iddo roi o leiaf tri mis o rybudd. Bydd hyn yn caniatáu i'r rhai sy'n meddiannu'r tir/eiddo neu'n ei ddefnyddio, wneud trefniadau eraill.

46. Byddai'r cynnig yn creu proses gyflym mewn rhai amgylchiadau i gwtogi'r tri mis i ddim llai na chwe wythnos lle:

- Mae'r tir/annedd heb neb yn ei feddiannu ac yn cael ei ystyried yn anaddas i'w ddefnyddio at ddibenion cyffredin / i bobl fyw ynddo.

- Os nad yw'r awdurdod caffael wedi gallu nodi personau sydd â buddiant yn y tir dan sylw.

Cymal 87 - Datganiad breinio cyffredinol: cyflymu breinio trwy gytundeb

47. Mae cymal 87 yn diwygio adrannau 7, 8, 9, yn mewnosod adran newydd ar ôl 8A ac yn diwygio paragraffau 5 ac 17 o Atodlen A1 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981, adran 5A o Ddeddf Digolledid Tir 1961 ac adran 33A o Ddeddf Digolledid Tir 1973. Ar hyn o bryd, y sefyllfa ohoni lle mae GPG wedi'i gadarnhau yw y caiff yr awdurdod caffael ddechrau'r broses o gymryd meddiant ar y 'r tir/eiddo trwy roi hysbysiad i'r meddianwyr ac eraill sydd â buddiant yn y tir/eiddo. Mae'r darpariaethau yn cynnig rhoi'r gallu i'r awdurdod caffael gymryd meddiant o'r tir yn gynharach, ond dim ond gyda chytundeb y perchennog sydd â'r buddiant.

Cymal 89 - Taliadau am golli cartref: eithriadau

48. Mae cymal 89 yn diwygio adran 29, 33 a 33D ac yn mewnosod adran newydd ar ôl adran 32 yn Neddf Digolledid Tir 1973. Y sefyllfa ohoni os yw person yn meddiannu eiddo sy'n ddarostyngedig i GPG, efallai y bydd ganddo'r hawl i daliad am golli cartref yn ogystal ag unrhyw iawndal arall a allai fod yn ddyledus e.e. gwerth yr eiddo ar y farchnad. Mae adrannau 29 i 33 o Ddeddf Digolledid Tir 1973 yn darparu ar gyfer taliadau am golli cartref fel swm ychwanegol o iawndal i adlewyrchu trallod, anghyfleustra ac anghysur pobl sy'n cael eu gorfodi i symud allan o'u cartref.

49. Mae'r darpariaethau yn darparu ar gyfer eithrio talu taliadau am golli cartref yn ôl disgresiwn mewn rhai amgylchiadau lle:
    - Mae person yn cael ei ddadleoli o annedd o ganlyniad i gaffael gorfodol a bod hysbysiad wedi'i gyflwyno ond nad yw'r person wedi cydymffurfio ag ef. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae hysbysiad wedi'i gyflwyno sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal a chadw tir yn briodol o dan adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, hysbysiadau gwella o dan adrannau 11 a 12 o Ddeddf Tai 2004, hysbysiadau atgyweirio o dan adrannau 48 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 neu adran 138 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.
    - Mae person yn cael ei ddadleoli o annedd o ganlyniad i gaffael gorfodol a bod gorchymyn wedi'i gyflwyno ond nid yw'r gorchymyn yn cael ei ddiddymu ar apêl. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae gorchymyn wedi'i wneud o dan adrannau 20 a 21 o Ddeddf Tai 2004 sy'n cwmpasu gorchmynion gwahardd sy'n ymwneud â pheryglon categori 1 a 2, adran 43 o'r Ddeddf honno sy'n ymdrin â gwaharddiad brys neu adran 265 o'r Ddeddf honno sy'n ymdrin â gorchmynion dymchwel mewn perthynas â pheryglon categori 1 neu 2.

50. Mae'r darpariaethau yn cynnwys hefyd bwerau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o hysbysiadau a gorchmynion perthnasol trwy reoliadau. Mae'r darpariaethau'n cadarnhau, ar gyfer rheoliadau a wneir gan Weinidogion

Cymru, bod yn rhaid iddynt gael eu gwneud drwy offeryn statudol a'u bod yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Cymal 90 - Cymryd Meddiant dros dro ar dir mewn cysylltiad â phrynu gorfodol

51. Mae cymal 90 yn diwygio adran 18 o Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth 2017, nad yw wedi dod i rym eto. Cyflwynodd Deddf Cynllunio Cymdogaeth 2017 bŵer i gymryd meddiant dros dro ar gyfer caffael tir yn orfodol, hynny am y cydnabyddir y gallai fod angen cymryd meddiant dros dro ar dir o dan GPG ar gyfer safleoedd gwaith, storio ac ati ac i gaffael tir am gyfnod dros dro rhaid i'r awdurdod caffael naill ai gael hawl parhaol neu ymrwymo i gytundeb masnachol gyda'r tirfeddiannwr. Gall hyn arwain at oedi wrth gynnal prosiect ac at gostau uwch.

52. Mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon y gallai pwerau Deddf Cynllunio Cymdogaeth 2017 ar gyfer cymryd meddiant dros dro gyfyngu ar y pwerau presennol sydd ar gael o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 a Deddf Cynllunio 2008. Mae gan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 agwedd debyg at gymryd meddiant dros dro ar dir a byddai'r cyfyngiad hwn hefyd yn effeithio ar y pwerau hyn. Felly, mae cymal 90 yn caniatáu i'r pwerau presennol ar gyfer cymryd meddiant dros dro o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992, Deddf Cynllunio 2008 a Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 barhau ar gyfer cymryd meddiant dros dro o dan orchmynion o dan y Deddfau hynny.

Cymal 91 - Diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 14A o Ddeddf Digolledia Tir 1961

53. Mae cymal 91 yn diwygio adrannau 14A, 15A ac Atodlen 2A o Ddeddf Caffael Tir 1981, adrannau 30, 33A, 33B a 33C o Ddeddf Digolledia Tir 1973. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi cynghorau plwyf a chymuned ar y rhestr o awdurdodau caffael y gellir gofyn iddynt am gyfarwyddydau mewn GPGau i ddileu gwerth gobaith. Gwnaeth Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 gyflwyno pŵer i gynnwys cyfarwyddydau mewn GPGau i ddileu gwerthoedd y gellid eu priodoli i ragolygon cael caniatâd cynllunio, 'gwerth gobaith' fel y'u gelwir, o'r asesiad o iawndal am dir a gymerwyd. Gwelir bod hyn yn helpu gyda darparu tai fforddiadwy a datblygu er budd y cyhoedd lle mae angen defnyddio pwerau prynu gorfodol i hwyluso crynhoi tir.

54. Mae'r darpariaethau hefyd yn defnyddio cyfarwyddydau i dynnu'r gwerth gobaith wrth hawlio am dâl am golli cartref (a thaliadau cysylltiedig) o dan Ddeddf Digolledia Tir 1973 lle mae gwerth y tir ar y farchnad yn elfen wrth asesu iawndal.

Cymal 92 - Pwerau newydd i benodi arolygydd

55. Mae cymal 92 yn cynnwys adran newydd ar ôl adran 4 o Ddeddf Trefi Newydd 1981 ac mae'n cynnwys paragraff newydd ar ôl paragraff 1 o Atodlen 2A i Ddeddf Digolledia Tir 1961. O dan Ddeddf Trefi Newydd 1981, rhaid i'r awdurdod caffael gyflwyno pob GPG i un o Weinidogion perthnasol Cymru neu Ysgrifennydd Gwladol i'w gadarnhau. Mae

ganddynt hefyd ddisgresiwn o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 i ganiatáu i Arolygwyr gadarnhau GPGau.

56. Byddai'r darpariaethau arfaethedig yn caniatáu i Weinidogion Cymru benodi Arolygydd i gadarnhau penderfyniadau ynghylch GPGau a wneir o dan Ddeddf Trefi Newydd 1981 neu awdurdodau caffael lle nad oes gwrthwynebiad. Mae'r darpariaethau hefyd yn darparu ar gyfer pwerau i ddirymu penodiad Arolygydd ar unrhyw adeg a phenodi Arolygydd arall. Os nad yw'r awdurdod cadarnhau yn penodi Arolygydd newydd, rhaid iddo roi rhesymau dros wneud hynny.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

57. Mae Matthew Pennycook AS, Gweinidog Tai a Chynllunio'r DU, wedi ysgrifennu ataf i ddweud, ym marn Llywodraeth y DU, bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau canlynol:
    - Rhan 1 – Cymalau 24, 25, 29, 30 i 39, 41 a 42.
    - Rhan 5 - Cymalau 83 i 87 ac 89 i 92.

58. Ym marn Llywodraeth y DU nid oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau canlynol:
    - Rhan 1 – Cymalau 1 i 8 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas ag NSIPs a chymalau 9 i 23 gan eu bod yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl mewn perthynas ag NSIP a thrydan.
    - Rhan 1 – Cymalau 26 i 28 gan nad ydynt yn berthnasol ar lefel ymarferol yng Nghymru ac eithrio'r achosion prin iawn lle mae priffyrdd yn gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol.
    - Rhan 1 – Cymal 40 gan ei fod yn berthnasol i'r Alban yn unig.
    - Rhan 1 – Cymal 43 gan ei fod yn berthnasol i Loegr yn unig.
    - Rhan 2 – Cymalau 44 i 47 gan eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig.
    - Rhannau 3 a 4 – Cymalau 48 i 82 gan eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig.
    - Rhan 6 – Cymal 93 gan fod y ddarpariaeth ond yn newid maint y pŵer presennol y gall Cymru ei arfer mewn rhai amgylchiadau ond nid yw'n gyfystyr â newid cymhwysedd gweithredol.

59. Er fy mod yn cytuno'n fras â dadansoddiad Llywodraeth y DU o ddatganoli, mae gwahaniaeth rhwng fy marn i, a barn Llywodraeth y DU ar yr angen am ganiatâd y Senedd ar nifer fach o ddarpariaethau yn y Bil. Rwy'n credu bod cymal 4(3) i (5) (Ceisiadau am ganiatâd datblygu: ymgynghoriad) yn gofyn hefyd am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Hynny am ei fod yn cael effaith ar swyddogaethau Awdurdodau datganoledig Cymru ac felly yn ymdrin â mater datganoledig. Am y rheswm hwnnw mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cwmpasu'r cymal hwn. Rwyf hefyd wedi cynnwys cymal 28 yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn nes bod trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth y DU ar gymhwyso'r cymal i Loegr yn unig wedi dod i ben. Rwyf wedi ysgrifennu at Matthew Pennycook AS ar y materion hyn.

60. Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu y byddai angen LCM ar gyfer cymal 39. Mae’r ddarpariaeth yn ymwneud â Lloegr yn unig ac ni fydd yn effeithio ar Gymru, felly nid yw wedi’i gynnwys yn yr LCM.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Cynllunio a Seilwaith.**

61. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau a allai fod o fudd i bobl Cymru.

*Cymalau 1 i 8 – Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP)*

62. Rwy'n cytuno'n fras nad yw'r cymalau hyn yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Rwy'n credu bod cymal 4(3) i (5) yn sbarduno'r broses hon gan y byddai'n effeithio ar swyddogaeth awdurdodau datganoledig Cymru. Mae cyfranogiad awdurdodau cyhoeddus yn hanfodol wrth benderfynu ar brosiectau mawr. Mae cyrff Cymru a'r DU yn cymryd rhan yn y broses gydsynio yng Nghymru, sef ar hyn o bryd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yn y dyfodol, y broses o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024. Mae'r prosesau hyn yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi ymateb o sylwedd pan ymgynghorir â nhw.

63. Mae cyrff Cymru eisoes yn cymryd rhan ym mhroses NSIP Llywodraeth y DU, ac mae'r cymalau hyn yn debyg i'r rheini a geir yn y system Gymreig. Rwy'n credu y bydd y cymalau hyn, sy'n cyflwyno 'dyletswydd i roi sylw i ganllawiau', yn helpu i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus Cymru yn ymgysylltu ac yn rhoi cyngor arbenigol ystyrlon ac amserol. Bydd hyn yn helpu i lywio datblygiad ac yn cyflymu penderfyniadau, gan roi sicrwydd ynghylch datblygiadau mawr sy'n effeithio ar Gymru.

*Cymal 24 - Defnyddio ystâd goedwigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy*

64. Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) eisoes yn cael gwerthu rhannau o Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru at ddibenion ynni adnewyddadwy (e.e. i adeiladu ffermydd gwynt). Mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud hyn, o dan gytundeb adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw CNC yn cael datblygu ei brosiectau ynni adnewyddadwy ei hun ar ystad goetir Llywodraeth Cymru. Mae'r drafft diweddaraf o gymal 24 yn darparu bod CNC yn cael defnyddio ei bwerau newydd o dan gymal 24 i gael arian ar gyfer ei weithgareddau. Er fy mod yn gefnogol i'r ddarpariaeth sy'n rhoi pwerau i CNC, mae angen rhagor o drafod â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

*Cymalau 25, 28 a 29 – Diwygiadau i Ddeddf Priffyrdd 1980*

65. Mae cymal 25 yn ffurfioli'r broses i gyrff statudol ac awdurdodau lleol ail-godi tâl am eu cyngor a'u mewnbwn yn y cam cyn ymgeisio, yn ystod ymchwiliad (lle bo hynny'n berthnasol) ac ar ôl cydsynio Gorchymyn o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, hynny i sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i gyflymu'r broses gydsynio. Mae cymal 29 yn cyflwyno pwerau i ddefnyddio tir dros dro (er enghraifft at ddibenion adeiladu) gan ymdrin

mewn ffordd fwy cymesur â chael mynd ar dir gan arwain at drefn fwy rhesymol ac effeithlon ynghyd â sicrhau mwy o werth i hyrwyddwr y cynllun. Felly, ystyrir bod y ddau gymal hyn yn fuddiol o ran cydsynio prosiectau nad ydynt yn dod o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024.

66. Ar gyfer cymal 28, yn benodol, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae angen gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ynghylch priffyrdd, a'i fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn ôl bwriad y cymal, dylai fod yn berthnasol i Loegr yn unig, a phan fydd y diwygiadau i Ddeddf Priffyrdd 1980 o dan y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru) arfaethedig y mae'r Senedd yn craffu arno ar hyn o bryd wedi'u gwneud, dylai hynny fod yn glir. Fodd bynnag, rydym wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU i weld a ellir gwella geiriad y cymal hwn, neu ei esbonio, i'w gwneud yn glir ei fod ond yn berthnasol i Loegr.

*Cymalau 30 i 38 a 41 – Diwygiadau i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992*

67. Bydd y newidiadau, ymhlith pethau eraill, yn egluro a symleiddio'r gyfraith, darparu ar gyfer mecanweithiau i adennill costau er mwyn i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y broses allu adennill eu costau, a sicrhau cae chwarae gwastad i sicrhau nad yw defnyddwyr y system yng Nghymru o dan anfantais. Mae hyn oll yn sicrhau bod prosiectau sy'n dal i fod o dan y trothwy newydd a bennwyd yn Neddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn cael eu cydsyniad trwy fframwaith mwy modern.

68. Er fy mod yn cefnogi'r ddarpariaeth i roi trwyddedau morol o dan gymal 38, rwy'n ceisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU na fydd canlyniadau anfwriadol yn rhanbarth y môr mawr.

*Cymal 42 - Ffioedd ceisio am orchmynion harbwr*

69. Mae'r cynigion yn ein barn ni yn dderbyniol gan y byddent yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rhestrau ffioedd hyblyg a chymesur ar gyfer ceisiadau am orchymyn harbyrau.  Agwedd bwysig yw bod y darpariaethau cychwyn yn y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru gadw eu pwerau presennol i godi ffioedd o dan Ddeddf Harbyrau 1964 nes y gwneir rheoliadau ffioedd newydd.

*Cymalau 83 i 87 ac 89 i 92 - Pŵer Prynu Gorfodol*

70. Mae cymalau 83 i 87 ac 89 i 92 sy’n ymwneud â phrynu gofodol, yn ein barn ni, yn dderbyniol i helpu i gyflymu'r broses o ddarparu tai fforddiadwy, seilwaith a datblygu er lles y cyhoedd.

## Goblygiadau ariannol

71. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnal asesiad ariannol o'r Bil eto a chaiff ei gyhoeddi yn ystod taith y Bil trwy Senedd y DU.

**Casgliad**

72. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn, fel y cawsant eu drafftio pan gafodd ei gyflwyno, yn y Bil DU hwn. Byddant yn helpu i hwyluso a symleiddio'r prosesau sy'n gysylltiedig â darparu seilwaith a datblygu, gan gynnwys tai, yng Nghymru.

73. Er ein bod yn gyffredinol gefnogol i'r darpariaethau hyn, rwyf am drafod ymhellach â Llywodraeth y DU ar y darpariaethau canlynol cyn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad iddynt—:
    - Cymal 24 (Defnyddio ystâd goedwigaeth ar gyfer trydan adnewyddadwy);
    - Cymal 28 (Gweithdrefn ar gyfer gorchmynion a chynlluniau penodol);
    - Chymal 38 (Cydsyniad tybiedig o dan drwydded forol).

74. Byddwn yn parhau i drafod y cymalau hyn â Llywodraeth y DU i sicrhau ein bod yn cael canlyniad cadarnhaol.

75. Byddaf yn diweddaru'r Senedd fel y bo'n briodol unwaith y bydd trafodaethau pellach wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**26 Mawrth 2025**

**Atodiad 1 - Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

| Cymal/ | Disgrifiad | I'w arfer gan | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 24 - Defnyddio'r ystâd goedwigaeth ar gyfer trydan adnewyddadwy | Yn caniatáu gwneud Rheoliadau:<br>- bydd angen cydsyniad Gweinidog cyn y gellir arfer pwerau newydd;<br>- yn nodi'r broses gydsynio;<br>- gallai fod angen amodau wrth y cydsyniad. | Awdurdod cenedlaethol priodol – Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chomisiynwyr Coedwigaeth yn Lloegr, Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag CNC | Gall Senedd Cymru gyflwyno cynnig i'w ddiddymu trwy benderfyniad. |
| 25 - Ffioedd am wasanaethau penodol | Diwygio Deddf Priffyrdd 1980. Pwerau gwneud rheoliadau i enwi'r cyrff cyhoeddus y caniateir iddynt godi tâl am eu gwasanaethau mewn cysylltiad â gorchmynion a chynlluniau ar gyfer prosiectau ffyrdd. | Awdurdod cenedlaethol priodol – Lloegr, yr Ysgrifennydd Gwladol a Chymru, Gweinidogion Cymru | Gall Senedd Cymru gyflwyno cynnig i'w ddiddymu trwy benderfyniad. |
| 34 – Dyddiad cau ar gyfer penderfyniadau | Diwygiadau i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992. Rheoliadau i bennu'r rheolau ar gyfer pennu terfynau amser gweithredu a gwneud penderfyniadau mewn achosion sy'n ymwneud â cheisiadau o dan adran 6 o TWA 1992. | Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru mewn achosion unigol. Os ydyn nhw'n berthnasol i Gymru, rhaid cael cytundeb Gweinidogion Cymru i'w gwneud. | Gall y naill neu'r llall o Dai Senedd y DU gyflwyno cynnig i'w ddiddymu trwy benderfyniad. |
| Cymal 36 - Ffioedd am wasanaethau penodol | Diwygiadau i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992. | Awdurdod cenedlaethol priodol – gorchmynion | Gall Senedd Cymru gyflwyno cynnig i'w |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pwerau gwneud rheoliadau i enwi'r cyrff cyhoeddus y caniateir iddynt godi tâl am wasanaethau mewn cysylltiad â chynlluniau ym mhroses ymgeisio TWA. | Lloegr a thrawsffiniol, yr Ysgrifennydd Gwladol a gorchmynion Cymru (nid rhai trawsffiniol), Gweinidogion Cymru | ddiddymu trwy benderfyniad. |
| 41 - Pŵer i wneud newidiadau canlyniadol | Diwygiadau i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 er mwyn gallu gwneud rheoliadau i wneud diwygiadau canlyniadol i sicrhau bod darpariaethau cysylltiedig yn gweithio. | Yr Ysgrifennydd Gwladol | Ni chaniateir gwneud OS sy'n dibynnu ar is-adran (2) sy'n diwygio Deddf neu Ddeddf Seneddol neu Fesur Senedd Cymru oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n eu cynnwys wedi'i osod gerbron dau Dŷ Senedd y DU a'i gymeradwyo gan benderfyniad gan ddau Dŷ Senedd y DU. Gall y naill neu'r llall o Dai Senedd y DU gyflwyno cynnig i ddiddymu OSau eraill o dan y cymal hwn trwy benderfyniad. |
| 42 - Ffioedd ceisio am orchmynion harbwr | Diwygio Deddf Harbyrau 1964. Rheoliadau i bennu ffioedd a phrosesau cysylltiedig i dalu ffioedd i wneud cais am Orchymyn Adolygu Harbyrau. | Yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 17(2C) o Ddeddf Harbyrau 1964. | Gall y naill neu'r llall o Dai Senedd y DU gyflwyno cynnig i'w ddiddymu trwy benderfyniad. Gall Senedd Cymru gyflwyno cynnig i'w ddiddymu trwy benderfyniad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 89 - Taliadau am golli cartref: eithriadau | Diwygiadau i Ddeddf Digollediad Tir 1973. Pŵer i wneud diwygiadau i'r rhestr o hysbysiadau a gorchmynion perthnasol drwy reoleiddiad. | Awdurdod cenedlaethol priodol – Lloegr, yr Ysgrifennydd Gwladol a Chymru, Gweinidogion Cymru | Gall y naill neu'r llall o Dai Senedd y DU gyflwyno cynnig i'w ddiddymu trwy benderfyniad. Gall Senedd Cymru gyflwyno cynnig i'w ddiddymu trwy benderfyniad. |